

PWYLLGOR CRAFFU ADOLYGU POLISI A CHRAFFU PERFFORMIAD

DYDD MERCHER, 28 CHWEFROR 2024

Yn Cynghorydd Williams(Cadeirydd)
bressenol:

Cynghorwyr Ash-Edwards, Bowen-Thomson, Carter,
Chowdhury, Henshaw, Hunt a/ac Thomson

57 : YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Cafwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorydd Hinchey.

58 : DATGAN BUDDIANNAU

Datganodd y Cynghorydd Thomson fuddiant personol a rhagfarnus yn Eitem 5 gan y bydd yn ymgymryd â rôl gyda Theatr Genedlaethol Cymru cyn bo hir sy'n derbyn cyllid gan y Gronfa Ffyniant Gyffredin (CFfG).

Datganodd y Cynghorydd Carter fuddiant personol yn Eitem 5 gan fod aelod o'r teulu yn cael ei gyflogi gan y Cyngor.

Datganodd y Cynghorydd Henshaw fuddiant personol yn Eitem 5 fel y Dirprwy Arglwydd Faer a chan fod aelodau o'r teulu yn cael eu cyflogi gan y Cyngor.

Datganodd y Cynghorydd Williams fuddiant personol yn Eitem 5 gan fod aelodau o'r teulu yn cael eu cyflogi gan y Cyngor a buddiant personol a rhagfarnus mewn perthynas â chynllun prydlesu'r Cyngor.

Datganodd y Cynghorydd Bowen-Thomson fuddiant personol mewn perthynas â'i gwaith gydag elusen, Cymru Ddiogelach, sy'n derbyn cyllid y Cyngor a'i haelodaeth o'r Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol fel rhan o'i rôl gyda'r elusen.

Datganodd pob aelod sy'n llywodraethwr ysgol fuddiant personol yn Eitem 5.

59 : COFNODION

Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 10 Ionawr 2024 fel cofnod cywir.

60 : CYNLLUN CORFFORAETHOL 2024/27

Atgoffwyd yr Aelodau bod yr eitem hon yn gyfle i'r Pwyllgor graffu cyn penderfynu ar Gynllun Corfforaethol drafft terfynol 2024-27. Roedd yr Arweinydd a'r uwch dîm rheoli wedi ymgysylltu'n anffurfiol â Phanel Craffu Perfformiad y Pwyllgor, sydd yn cynnwys cadeiryddion pob un o'r pum pwyllgor craffu, yn ddiweddar gan ganolbwyntio ar y broses o bennu targedau ar gyfer y Cynllun Corfforaethol. Yn dilyn y drafodaeth, cafodd yr argymhellion, yr arsylwadau a'r pryderon craffu eu trosglwyddo i'r Arweinydd a derbyniwyd ymateb yn fuan wedi hynny, cyn cyhoeddi drafft terfynol y Cynllun. Atodwyd y materion a godwyd ac ymateb y Cabinet fel atodiadau 2 a 3 i'r eitem hon.

Ar gyfer yr eitem hon, croesawodd y Cadeirydd y Cynghorydd Huw Thomas, Arweinydd y Cyngor; y Cynghorydd Chris Weaver, yr Aelod Cabinet dros Gyllid, Moderneiddio a Pherfformiad; Paul Orders, Prif Weithredwr; Sarah McGill, Cyfarwyddwr Corfforaethol Pobl a Chymunedau; Chris Lee, Cyfarwyddwr Corfforaethol, Adnoddau; Gareth Newell, Pennaeth Polisi a Phartneriaethau; a Dylan Owen, Rheolwr Polisi a Gwella.

Gwahoddodd y Cadeirydd y Cynghorydd Thomas a'r Prif Weithredwr i roi datganiadau ac ar ôl hynny gofynnwyd i'r Aelodau am eu sylwadau, eu harsylwadau a'u cwestiynau.

Mynegodd yr Aelodau bryder ynghylch cyflawni Cynllun Corfforaethol uchelgeisiol yn erbyn cefndir llai o staff a gofynnnon nhw am wybodaeth am ddisgwyliadau arweinwyr y Cyngor ynghylch y trywydd wrth symud ymlaen. Rhoddwyd gwybod i'r Pwyllgor fod y cynllun wedi'i seilio ar realaeth a'i fod yn adlewyrchu'r pwysau ariannol y mae'r Cyngor yn eu hwynebu. Rhoddwyd enghreifftiau o sut y gall gwaith mewn rhai meysydd gyflawni arbedion cost yn ogystal â chanlyniadau gwell, a rhoddwyd gwybod i'r Aelodau fod targedau cyflawni yn cael eu hymestyn i adlewyrchu'r adnoddau sydd ar gael.

Dangosyddion perfformiad allweddol a thargedau

Rhoddwyd gwybod i'r Aelodau mai dim ond ar ôl casglu'r data blynyddol diweddaraf y gellid pennu rhai targedau, neu pan oedd dangosydd perfformiad allweddol newydd pan oedd cyfres ddigonol o ddata ar gael. Mynegwyd pryder y byddai'n anodd barnu rhannau o'r Cynllun Corfforaethol os nad oedd y Pwyllgor yn gwybod beth oedd y targedau arfaethedig. Rhoddwyd sicrwydd i'r Aelodau fod lleiafrif bach o ddangosyddion perfformiad allweddol yn unig lle nad oedd targed wedi'i bennu, a hynny oherwydd bod y Cyngor yn aros am ddata alldro blynyddol, oherwydd nad oedd data dirprwy ar gael, neu oherwydd bod disgwyl data cyfres amser. Bydd y Cyngor yn gweithio tuag at bennu targedau wrth symud ymlaen.

Ymgysylltu â staff

O ran ymgysylltu â staff, dywedwyd wrth yr Aelodau fod y Cynllun Corfforaethol yn ddogfen bolisi sy'n nodi i'r Cabinet sut y byddai'r agenda bolisi yn cael ei chyflawni yn dilyn ymgynghori ag uwch reolwyr. Gofynnir am farn staff yn ddiweddarach drwy raglen ymgysylltu â staff wedi'i hadfywio.

Amcan lles

Symudodd y drafodaeth ymlaen i amddifadedd a phwysigrwydd buddsoddi yn yr arc ddeheuol, gyda phryder yn cael ei fynegi bod y Cynllun Corfforaethol yn canolbwyntio ar fuddsoddi yng nghanol y ddinas yn hytrach nag mewn canolfannau ardal. Rhoddwyd gwybod i'r Aelodau y gellid ystyried bod dangosyddion perfformiad allweddol fel creu swyddfa Gradd A yn ddirprwyon ar gyfer iechyd economaidd y ddinas. Mae Adran 3 sy'n ymdrin â chefnogi pobl allan o dlodi ac Adran 4 sy'n ymdrin ag iechyd y cyhoedd yn nodi pryder parhaus y Cyngor am anghydraddoldeb. Mae'r Arena Dan Do bellach ar y pwynt cyflawni a hi yw'r buddsoddiad cyhoeddus-preifat mwyaf yn ne'r Ddinas ers morglawdd Bae Caerdydd. Mae'r Cynllun hefyd yn cynnwys y strategaeth adfywio newydd sy'n cefnogi hyfywedd canolfannau ardal a lleol, a phecyn cymorth dinas 15 munud.

Recriwtio a chadw

Gofynnodd yr Aelodau am wybodaeth am fonitro recriwtio a chadw er mwyn sicrhau gweithlu amrywiol. Rhoddwyd gwybod i'r Aelodau fod amrywiaeth gynyddol wedi bod o ran recriwtio oherwydd newidiadau mewn arferion recriwtio. Bydd yn heriol parhau â hynny gyda recriwtio mwy cyfyngedig. Serch hynny, mae arwyddion calonogol o gynyddu amrywiaeth ar lefelau uwch.

Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY)

Rhoddwyd gwybod i'r Pwyllgor nad oedd targedau dangosyddion perfformiad allweddol ar gyfer disgyblion ag ADY wedi'u gosod yn rhannol oherwydd bod diffyg data hanesyddol oherwydd y newid yn y system ac yn rhannol oherwydd bod y gwasanaeth yn cael ei arwain gan alw. Mae'n faes o anwadalrwydd sylweddol gyda chynnydd mawr yn y galw yn ystod y blynyddoedd diwethaf.

Argymhellion y Panel Craffu Perfformiad

Rhoddwyd crynodeb i'r Aelodau o sut yr oedd argymhellion y Panel wedi'u hymgorffori, gan gynnwys cynnydd yn nifer y Dangosyddion Perfformiad Llais y Dinesydd; nifer yr unedau newydd ar gyfer plant a phobl ifanc; y gwaith Cydraddoldeb Strategol sy'n cael ei wneud o fewn y Gyfarwyddiaeth Tai a Chymunedau (wedi'i gynnwys yng Nghynllun Cyflawni'r Gyfarwyddiaeth); monitro'r galw am ofod swyddfa Gradd A; eglurhad o ran Pont y Gored Ddu; a diweddariad ar y caniatâd cynllunio diweddaraf ar gyfer Pont Llanrhymni.

Cymunedau Dysgu Cynaliadwy

Gofynnodd yr Aelodau am wybodaeth am sut y byddai'r Cyngor yn dal lleisiau pobl ifanc mewn perthynas â'u boddhad â gwasanaethau a'u haddysg. Rhoddwyd gwybod i'r Pwyllgor fod ennill safbwyntiau pobl ifanc yn hanfodol i'r uchelgais o fod yn Ddinas sy'n Dda i Blant ac Ysgolion sy'n Parchu Hawliau. Cesglir barn trigolion gan gynnwys pobl ifanc mewn sawl ffordd a dangosyddion perfformiad allweddol ar draws y Cynllun Corfforaethol, a bydd dangosyddion Llais y Dinesydd ychwanegol o fewn y Gyfarwyddiaeth Addysg.

Dinas Cyflog Byw

Rhoddwyd gwybod i'r Aelodau fod targedau yn dod o Gynllun Dinas Cyflog Byw Caerdydd sy'n rychwantu nifer o flynyddoedd. Mae'r Cyngor yn cefnogi busnesau bach a chanolig gyda'u costau achredu yn y flwyddyn gyntaf yn ogystal â chymorth ymarferol naill ai'n uniongyrchol neu drwy sefydliadau partner. Mae Cyngor Caerdydd hefyd yn nodi sectorau neu gyflogwyr mawr lle gall helpu gydag achrediad ac mae'n cynnal gwiriad blynyddol o'r sectorau y dylid eu blaenoriaethu.

CYTUNWYD: y byddai'r Cadeirydd, ar ran y Pwyllgor, yn ysgrifennu at yr Aelod Cabinet er mwyn cyfleu arsylwadau'r Pwyllgor wrth drafod y ffordd ymlaen.

Croesawodd y Cadeirydd y Cynghorydd Chris Weaver, yr Aelod Cabinet dros Gyllid, Moderneiddio a Pherfformiad; Chris Lee, Cyfarwyddwr Corfforaethol Adnoddau; Sarah McGill, Cyfarwyddwr Corfforaethol, Pobl a Chymunedau; Ian Allwood, Pennaeth Cyllid; Gareth Newell, Rheolwr Partneriaethau ac Ymgysylltu Cymunedol ac Anil Hirani, Rheolwr Gweithredol, Cyfalaf, Corfforaethol a Thrysorlys.

Dywedwyd wrth yr Aelodau, yn unol â Chylch Gorchwyl y Pwyllgor, fod ganddynt gyfrifoldeb i gael trosolwg o gynigion cyllideb *Refeniw a Chyfalaf* o safbwynt corfforaethol a strategol, ac ystyried cynigion ar gyfer gwasanaethau cymorth swyddfa gefn.

Cynigiodd y Cadeirydd rannu craffu ar yr eitem hon ar y gyllideb yn ddwy ran. Yn gyntaf, trosolwg a chwestiynau ar gynigion cyllideb refeniw traws-gorfforaethol 2024/25, ac yna cwestiynau gan yr Aelodau ar y rhaglen gyfalaf, ac yn olaf y goblygiadau ar gyfer y gyfarwyddiaeth Adnoddau.

Gwahoddodd y Cadeirydd y Cynghorydd Weaver i wneud datganiad ar gyllideb 2024/25, ac ar ôl hynny rhoddodd y Swyddogion drosolwg byr ar lafar o'r Gyllideb Refeniw Gorfforaethol. Wedyn gofynnwyd i'r Aelodau am eu sylwadau, eu harsylwadau a'u cwestiynau.

Cynigion Cyllideb Refeniw ar draws y Cyngor

Gofynnodd y Pwyllgor am wybodaeth am y camau yr oedd y Cyngor yn eu rhoi ar waith i gefnogi ysgolion sydd mewn perygl o fynd i gyllideb diffyg, cynlluniau i fynd i'r afael â'r gost o addysgu plant ag ADY yn y sector annibynnol, a hyder y bydd y Cyngor yn derbyn yr arian i fynd i'r afael â'r bwch yn y cynllun pensiwn athrawon. Rhoddwyd gwybod i'r Aelodau fod gwaith manwl yn cael ei wneud gydag ysgolion sydd mewn perygl o osod cyllideb diffyg a bod yn rhaid cymeradwyo cyllidebau diffyg gyda chynllun clir i ddileu'r diffyg. Mae grwpiau effeithlonrwydd yn edrych ar arfer da a rhannu gwybodaeth rhwng ysgolion, ac mae papur yn mynd i'r Cabinet ar gydweithio a ffederasiwn, a all greu manteision ariannol yn ogystal â chanlyniadau addysgol gwell.

O ran addysg ADY yn y sector annibynnol, rhoddwyd gwybod i'r Aelodau fod buddsoddiad mewn darparu llety a lleoedd addysgol ychwanegol i blant ag ADY. Mewn rhai amgylchiadau, gall darpariaeth breifat fod yn fwy priodol ar gyfer anghenion person ifanc, ac weithiau mae'n rhaid i'r ddarpariaeth fod y tu allan i Gaerdydd gan mai dyna lle mae'r person ifanc â lleoliad.

Dywedodd y swyddogion fod y risg na fyddai'r Cyngor yn derbyn y cyllid i gau'r bwch yn y cynllun pensiwn athrawon wedi'i nodi yn yr adroddiad, ynghyd â'r mecanweithiau y byddai eu hangen i fynd i'r afael â hynny. Mae Llywodraeth Cymru wedi dweud efallai na fydd y Cyngor yn cael gwybod tan yn gynnar yn y flwyddyn ariannol nesaf a fydd y cyllid ar gael.

Rhoddwyd gwybod i'r Pwyllgor fod y broses raddol o symud hawlwr y Gredyd Cynhwysol yn lleihau'r angen i'r Cyngor asesu hawlwr ar gyfer Budd-dal Tai. Mae'r Cyngor yn adolygu'n barhaus sut mae darpariaeth yn y gwasanaeth cynghori yn bodloni anghenion a lle y gellir defnyddio sgiliau yn fwyaf priodol.

Rhodddwyd gwybod i'r Aelodau fod pob arbediad yn cael ei asesu ar sail ei rinweddau ei hun. Mae rhai'n codi oherwydd nad oes angen i'r Cyngor ddarparu gwasanaeth mwyach, rhai o'r defnydd o dechnoleg newydd sy'n rhyddhau amser a chapasiti, a rhai oherwydd bod ffrwd cyllid newydd yn galluogi tynnu gwariant o gyllideb sylfaenol. Mae arbedion effeithlonrwydd yn cael eu gwahaniaethu oddi wrth newidiadau i wasanaethau oherwydd nad ydynt yn cael effaith sylweddol ar ddinasyddion, er y gallent fod yn her fewnol o ran gwahanol arferion gwaith.

Roedd y Pwyllgor yn pryderu y gallai'r cynnydd mewn taliadau ar gyfer casglu eitemau gwastraff swmpus arwain at fwy o dipio anghyfreithlon. Rhodddwyd gwybod i'r Aelodau fod y Cyngor yn dileu'r gwahaniaeth rhwng eitemau swmpus y gellir eu hailgylchu ac na ellir eu hailgylchu gan ei bod yn bosibl ailgylchu mwy o eitemau. Ystyrir bod gwasanaeth y Cyngor yn werth da o'i gymharu â gweithredwyr masnachol, ac mae'r Cyngor yn lleihau'r amser y mae cwsmeriaid yn aros rhwng archebu a chasglu. Mae atal tipio anghyfreithlon yn cael ei ystyried yn flaenoriaeth.

Canolfan Hamdden Pentwyn

Gofynnodd y Pwyllgor am eglurhad ar faint o arian sy'n cael ei roi i GLL i osod paneli solar ar adeiladau, a pham nad oedd arian yn cael ei fuddsoddi yng Nghanolfan Hamdden Pentwyn. Dywedodd y swyddogion fod £600,000 yn cael ei roi i GLL. Mae hyn dan y rhaglen Buddsoddi i Arbed a'i ddiben yw galluogi ynni cynaliadwy, cost is yn ystâd y Cyngor. Rhodddwyd gwybod i'r Aelodau fod £3 miliwn yn y rhaglen gyfalaf wedi'i neilltuo ar gyfer Canolfan Hamdden Pentwyn yn ogystal â chyllid y CFFG, ac mae'r Cyngor yn gwneud cais i Lywodraeth Cymru am Grant Lleihau Carbon Cynaliadwyedd y gellid ei wario ar y ganolfan hamdden. Bydd hyn yn galluogi darparu pwll nofio 25 metr gyda mwy o effeithlonrwydd ynni. Mae darparu'r ganolfan hamdden newydd yn dilyn ymgynghoriad gyda'r gymuned. Nid oes gan Rygbi Caerdydd ddi-ddordeb mwyach mewn meddiannu'r ganolfan ac ni fydd cae 3G yn cael ei adeiladu mwyach. Disgwylir i'r ganolfan newydd agor yn haf 2025. Dywedodd y swyddogion fod yr £1 miliwn o gyllid gan y CFFG ar gael i'w wario yn 2024/25, mae'r cyllid rhaglen gyfalaf gwerth £3 miliwn wedi'i drefnu ar gyfer 2025/26 ond gellid ei ddwyn ymlaen os oes angen.

Ysgolion

Roedd y Pwyllgor yn pryderu a oedd y diffyg cronrus a ragwelwyd yng nghyllidebau ysgolion yn gynaliadwy. Dywedodd y swyddogion fod y diffyg cronrus yn cydnabod yr angen am wariant ymlaen llaw er mwyn galluogi arbedion tymor canolig. Mae'r Cyngor yn ceisio dod o hyd i ffrwd o roi amser i ysgolion symud tuag at gyllidebau cytbwys gyda gwarged neu falans cyfanredol heb gyfaddawdu canlyniadau addysgol.

Dywedodd y swyddogion fod nifer o ysgolion dros y 15 mlynedd diwethaf wedi cael cynlluniau ad-dalu diffyg dros 3 blynedd, gydag 1 yn cymryd 10 mlynedd i ddychwelyd i gyllideb gytbwys, tra bod ysgolion eraill yn cymryd llai na thair blynedd. Mae'r penderfyniad ar gynlluniau adennill ariannol yn cynnwys y Cyfarwyddwr Addysg yn ogystal â'r Swyddog Adran 151 gan fod yn rhaid ystyried canlyniadau addysgol yn ogystal â pharmedrau ariannol.

Rhodddwyd gwybod i'r Pwyllgor fod 38 o ysgolion wedi mynd i ddiffyg yn 2023/24 a disgwylir i 3 fod â chyllideb gytbwys erbyn diwedd mis Mawrth. O'r 35 sy'n weddill,

mae 2 wedi cwrdd â'u diffyg ar gyfer 2024/25 tra bod 33 wedi mynd o fewn eu diffyg. Mae'n rhy gynnar i ddweud faint o ysgolion fydd mewn dyled yn 2024/25 gan nad yw pob ysgol wedi rhannu ei chynllun ariannol gyda'r Swyddogion eto.

Gwydnwch ariannol

Rhodddwyd gwybod i'r Aelodau fod £2 filiwn o'r Mecanwaith Gwydnwch Ariannol yn parhau yn y gyllideb sylfaenol ac mae cronfeydd hapddigwyddiadau penodol wedi'u cadw ar gyfer y Gwasanaethau Plant a'r Gwasanaethau Oedolion. Mae'r cronfeydd yn uwch nag yn 2019/20. Mae'r gyllideb yn ystyried y bwlch ariannol tymor canolig. Darparu gwasanaethau allweddol tra'n cynnal gwydnwch ariannol yw'r brif her wrth symud ymlaen.

Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb

Rhodddwyd gwybod i'r Pwyllgor fod pob cynnig cyllidebol yn agored i ystyriaeth ynghylch a oes angen Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb (AEG) arno. Pan fo AEG yn nodi nodwedd warchoddedig fel un sy'n cael ei heffeithio'n anghymesur gan gynnig, ymgysylltir yn bwrpasol â grwpiau yr effeithir arnynt i drafod yr effaith bosibl a pha fesurau lliniaru y gellir eu rhoi ar waith. Mae camau'n cael eu rhoi ar waith dan y Cynllun Corfforaethol ar gyfer 2024/25 ynghylch hyfforddiant cydraddoldeb gorfodol i bob aelod o staff a hyfforddiant AEG pwrpasol i Reolwyr Gweithredol.

Y Rhaglen Gyfalaf

Gwahoddodd y Cadeirydd y Cynghorydd Weaver i wneud datganiad, ac ar ôl hynny rhoddodd y Swyddogion drosolwg byr ar lafar o'r Rhaglen Gyfalaf. Wedyn gofynnwyd i'r Aelodau am eu sylwadau, eu harsylwadau a'u cwestiynau.

Rhodddwyd gwybod i'r Pwyllgor mai Cam 1 gwerth £4.9 miliwn ar gyfer gwresogi a gwaith mecanyddol yn Neuadd y Ddinas oedd y gwariant angenrheidiol i alluogi ailagor y lleoliad. Byddai unrhyw fuddsoddiad pellach yn gofyn am achos busnes ar ddefnydd pellach o adeiladau treftadaeth.

Rhodddwyd gwybod i'r Aelodau fod llawer iawn o barcio ar y ddaear a fydd yn cael ei ddatblygu drwy ddatblygiad yr Arena a'r gwaith o ailddatblygu Canolfan y Ddraig Goch. Fel rhan o hyn mae ymrwymiad i ddarparu cyfleusterau parcio ceir aml-lawr i'r rhai sydd angen teithio mewn car. Bydd angen sylweddol am drafnidiaeth gyhoeddus i bobl sy'n dod i'r ardal ac mae hyn yn cefnogi'r achos busnes ar gyfer y Metro.

Dywedodd y swyddogion fod y cynllun busnes Cyfrif Refeniw Tai (CRT) 30 mlynedd yn tybio gwariant cyfalaf ar y stoc dai bresennol i gynnal safonau a chyflawni Safonau Ansawdd Tai Cymru, ond adeiladau newydd yw prif ysgogydd benthyca uwch. Cynhelir asesiad hyfywedd ar gyfer pob buddsoddiad, gan edrych ar lefel y benthyca, lefel y cyllid grant sydd ar gael a lefel y rhenti dros 30 mlynedd. Ar ddiwedd y 30 mlynedd rhagwelir y bydd cronfeydd wrth gefn yn uwch nag ar hyn o bryd oherwydd yr enillion ar fuddsoddiadau.

O ran adnewyddu asedau eiddo ysgol, dywedwyd wrth y Pwyllgor fod swyddogion yn y Gyfarwyddiaeth Addysg yn gweithio gydag ysgolion i asesu anghenion ased, cynnal a chadw ac adnewyddu, a bod dyraniad yn seiliedig ar yr angen a nodwyd. Mae blaenoriaethu gwaith adnewyddu asedau eiddo yn cael ei ategu gan arolygon

cyflwr eiddo. Rhoddwyd gwybod i'r Pwyllgor y gallai ofyn am wybodaeth fanylach am y broses gan y Gyfarwyddiaeth Addysg. Rhoddwyd gwybod i'r Aelodau fod Aelodau Etholedig yn y Cabinet a'r Cyngor yn gyfrifol am benderfyniadau.

Nododd y Pwyllgor y swm bach o arian a ddyrannwyd i droedffyrdd ac roedd am wybod a ellid cynyddu hyn yn y blynyddoedd i ddod. Rhoddwyd gwybod i'r Aelodau fod arian mewn Asedau Seilwaith Priffyrdd sy'n mynd yn uniongyrchol i ffyrdd a phalmentydd, ac mae cyfleoedd i gael mynediad at gyllid grant ar gyfer llwybrau beicio a theithio llesol a all hefyd gynnwys gwelliannau i briffyrdd a mynediad i gerddwyr. Mae'r Cyngor yn gwneud ei orau i gynnal y seilwaith hwn ond mae'n heriol iawn oherwydd yr amgylchiadau ariannol.

Roedd yr Aelodau'n meddwl tybed a ellid cyfathrebu'r gwahaniaeth rhwng cyllidebau cyfalaf a refeniw yn well i'r cyhoedd. Rhoddwyd gwybod i'r Pwyllgor y gall fod yn anodd i bobl ddeall y gwahaniaethau ond byddai ystyriaeth o ran a fyddai ffordd gliriach o roi dealltwriaeth i bobl leyg yn ystod ymgynghoriadau.

O ran cynlluniau draenio ac atal llifogydd, rhoddwyd gwybod i'r Pwyllgor fod y Cyngor yn paratoi achosion busnes ar gyfer cyllid grant Llywodraeth Cymru, sydd fel arfer yn 85% o'r gost. Mae'r Cyngor yn ymgymryd â'r prosiect erydu arfordirol o amgylch Afon Elái a'r arfordir, a gefnogir gan grant Llywodraeth Cymru.

Roedd y Pwyllgor yn pryderu am fforddiadwyedd y rhaglen gyfalaf yng nghyd-destun y gyllideb refeniw heriol. Rhoddwyd gwybod i'r Aelodau fod y gofyniad cyllido cyfalaf fel cyfran o'r Gronfa Gyffredinol yn parhau'n gymharol gyson dros amser. Mae rhannau sylweddol o'r rhaglen gyfalaf yn dibynnu ar ddyfarnu grantiau. Mae cyllid yr Arena yn fodel Buddsoddi i Arbed ac mae'r modelu'n dangos gwarged i'r Cyngor dros amser. Mae'r swyddogion a'r weinyddiaeth yn cymryd fforddiadwyedd o ddifrif. Gall methu â gwneud gwaith hanfodol arwain at gostau uwch yn yr hirdymor. Dywedodd y swyddogion fod cyfran sylweddol o'r gofyniad benthyca newydd wedi'i wrthbwysu gydag incwm, trwy renti tai neu ffrydiau incwm eraill mewn prosiectau mawr. Mae angen i'r swyddog Adran 151 fel rhan o broses y gyllideb nodi ei farn ar y cynigion cyllideb ac mae'n fodlon bod y rhaglen gyfalaf yn nodi rhaglen fuddsoddi sy'n gyflawnadwy, yn fforddiadwy ac yn lliniaru risg yn briodol.

Trafododd y Pwyllgor briodoldeb rhywfaint o'r iaith a ddefnyddiwyd i drafod y rhaglen gyfalaf. Mynegwyd y farn bod rhywfaint o bryder gan y cyhoedd am lefel y gwariant cyfalaf ar adeg pan fo cyllidebau ysgolion mewn diffyg, a thynnwyd sylw at y ffaith bod gwariant cyfalaf yn cael effaith ar gyllidebau refeniw. Rhoddwyd gwybod i'r Aelodau y byddai myfyrio ar gyfathrebu'r gwahaniaeth rhwng cyllidebau cyfalaf a refeniw yn well i'r cyhoedd.

Cynigion Cyllideb y Gyfarwyddiaeth Adnoddau

Gwahoddodd y Cadeirydd y Cynghorydd Weaver i wneud datganiad, ac ar ôl hynny rhoddodd y Swyddogion drosolwg byr ar lafar o Gynigion y Gyfarwyddiaeth Adnoddau. Wedyn gofynnwyd i'r Aelodau am eu sylwadau, eu harsylwadau a'u cwestiynau.

Gofynnodd y Pwyllgor am sicrwydd na fyddai'r arbedion arfaethedig yn peryglu safon y gwasanaeth a ddarparwyd. Dywedodd y swyddogion fod mwy o gyfleoedd bellach i gyflawni arbedion effeithlonrwydd trwy awtomeiddio a defnyddio technolegau digidol i

leihau prosesau llaw, gostwng gofynion cyfrif pennau a darparu gwasanaethau i nifer cynyddol o feysydd, a gwneud y mwyaf o gyfleoedd o ran ffrydiau cyllido. Nid oes unrhyw ostyngiadau arbedion yn cael eu gwneud mewn timau archwilio, treth TAW neu yswiriant. Mae'r adran Refeniw yn gallu darparu ar gyfer y gwaith ychwanegol mewn perthynas â thai gwag ac ail gartrefi o fewn y cyfrif pennau presennol. Yn y dyfodol, efallai y bydd angen i ymgynghorwyr meysydd arbenigol allanol ategu arbenigedd mewnol mewn gwasanaethau proffesiynol lle mae'n fwy effeithlon gwneud hynny. Mae cyfrifeg wedi newid yn ystod y blynyddoedd diwethaf o rôl fonitro i ymgysylltu'n agosach â chyfarwyddiadau.

Rhoddwyd gwybod i'r Aelodau na fydd diswyddiadau gorfodol mewn Cyllid. Ar hyn o bryd rhagwelir y bydd 2 ddiswyddiad gwirfoddol gydag arbedion eraill yn dod o swyddi gwag heb eu llenwi.

Gofynnodd y Pwyllgor am sicrwydd na fyddai'r ddibyniaeth gynyddol ar wasanaethau digidol yn rhoi dinasyddion nad ydynt yn gallu cael mynediad atynt dan anfantais. Rhoddwyd gwybod i'r Aelodau y bydd gwasanaeth ffôn cwsmeriaid C2C a gwasanaethau Hyb wyneb yn wyneb yn parhau i gael eu darparu. Mae'r Cyngor yn annog pobl i ddefnyddio gwasanaethau digidol os gallant ond mae'n ymwybodol nad yw rhai trigolion yn gallu gwneud hynny.

Dywedodd y swyddogion y bydd y gostyngiad yn y gweithlu yn C2C yn cael ei gyflawni drwy swyddi gwag heb eu llenwi a gwastraff naturiol.

Gwnaeth y Pwyllgor ganmol y tîm ar y ffordd broffesiynol y mae wedi parhau i ddarparu gwasanaethau craidd mewn amgylchiadau ariannol anodd iawn.

Rhoddwyd gwybod i'r Aelodau fod yr arbedion yn y Gwasanaethau Trafnidiaeth Corfforaethol yn rhan o'r ailstrwythuro yr oedd y Pwyllgor eisoes wedi'i ystyried yn ei gyfarfod diwethaf.

Rhoddwyd sicrwydd i'r Pwyllgor nad oedd unrhyw arbedion effeithlonrwydd yn cael eu gwneud yn y tîm sy'n cefnogi ysgolion gyda'u cyllidebau. Hefyd, nid oes gostyngiadau yn y tîm sy'n gyfrifol am y datganiad cyfrifon.

Mynegodd y Pwyllgor ei bryder ynghylch effaith bosibl deallusrwydd artiffisial ar swyddi staff yn y blynyddoedd i ddod a gofynnodd i'r Cyngor gofio hyn mewn sylwadau yn y dyfodol y mae'n eu cyflwyno i Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU.

CYTUNWYD: y byddai'r Cadeirydd, ar ran y Pwyllgor, yn ysgrifennu at yr Aelod Cabinet er mwyn cyfleu arsylwadau'r Pwyllgor wrth drafod y ffordd ymlaen.

62 : EITEMAU BRYG (OS OES RHAI)

Ni chafwyd unrhyw rai.

63 : DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

Bydd y cyfarfod nesaf am 4.30pm ar 13 Mawrth 2024.

Daeth y cyfarfod i ben am 1.20 pm